Polisi Derbyn
Admissions Policy

Cytunwyd ar ran y llywodraethwyr gan/ Agreed on behalf of the governing body by – (Enw/Name) Shan Thomas	Arwyddwyd/Signed: *Shan Thomas* Dyddiad/Date:Medi 2026
Arwyddwyd gan y Pennaeth/ Signed by Headteacher Angharad Vaughan-Owen	*E A Vaughan-Owen* Dyddiad/Date: Medi 2026
Adolygiad nesaf/Review date:	Medi 2027

Polisi Derbyn

Nod:

Ceisiwn fod yn ysgol gynhwysol sy'n croesawu plant o bob cefndir a gallu.

Bydd pob cais yn cael ei drin ar sail teilyngdod, ac mewn modd sensitif.

Yr unig gyfyngiad a roddir ar fynediad yw'r nifer. Os bydd nifer y plant sy'n gwneud cais am le yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, rydym yn mabwysiadu'r weithdrefn a nodir isod i benderfynu a yw plentyn i'w dderbyn ai peidio. Ein dymuniad yw i rieni ddod o hyd i le i'w plentyn yn yr ysgol o'u dewis. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl, oherwydd y galw gormodol ar y lleoedd sydd ar gael.

Mae lefel gallu plentyn yn amherthnasol i bolisi derbyn yr ysgol hon, ac felly hefyd unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn.

Sut gall rhieni wneud cais i'w plentyn gael ei dderbyn i'n hysgol ni

Mae ein hysgol ni yn ysgol gymunedol, ac mae'r trefniadau derbyn yn cael eu cyhoeddi gan yr AALl. Yr Awdurdod Derbyn ar gyfer ein hysgol felly yw'r AALl, sy'n cyhoeddi ei reolau mynediad bob blwyddyn. Gall rhieni dderbyn copi o'r rheoliadau hyn yn uniongyrchol gan yr AALl.

Mae prosbectws derbyniadau blynyddol yr AALl yn hysbysu rhieni sut i wneud cais am le yn yr ysgol o'u dewis. Mae gan rieni hawl i fynegi eu dewis, ond nid yw hyn, ynddo'i hun, yn gwarantu lle yn yr ysgol benodol honno. Dylid gwneud ceisiadau ar-lein ar wefan yr AALl a dylid eu cwblhau erbyn y dyddiad a nodir ar y ffurflen honno. Bydd yr AALl yn hysbysu rhieni o'r penderfyniad cyn gynted ag y bydd yr holl geisiadau wedi'u hystyried yn erbyn eu meini prawf.

Mae manylion llawn polisi derbyn Cyngor Sir Caerfyrddin a sut i wneud cais am le i'ch plentyn ar gael drwy'r ddolen isod:

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/ysgolion-addysg/

Mae tri dyddiad derbyn y flwyddyn ar ddechrau pob tymor.

Apeliadau derbyn

Os na fydd yr AALl yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, y rheswm am hynny yw y byddai gwneud hynny'n rhagfarnu addysg plant eraill drwy ganiatáu i nifer y plant yn yr ysgol gynyddu'n ormodol.

Os yw rhieni'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod mynediad, gallant wneud hynny trwy wneud cais i'r AALl. Mae panel annibynnol yn ystyried pob apêl o'r fath, ac mae ei benderfyniad yn rhwymol i bob parti dan sylw. Os bydd y panel apêl yn penderfynu y dylem dderbyn plentyn y gwrthodwyd lle iddo, yna byddwn yn derbyn y penderfyniad hwn ac yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu'r addysg orau i holl blant ein hysgol. (Mae rhagor o fanylion am drefniadau apelio wedi'u nodi ym mholisi derbyn yr AALl)

Y rhif safonol

Y 'nifer safonol' yw nifer y plant y mae'r AALl yn ystyried y gall yr ysgol eu lletya. Y rhif safonol ar gyfer ein hysgol ni yw **30.**

Monitro ac adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro gan y corff llywodraethu a'i adolygu yng ngoleuni unrhyw newid mewn amgylchiadau, naill ai yn ein hysgol neu yn yr ardal leol. Bydd y polisi bob amser yn cymryd sylw dyledus o'r arweiniad a ddarperir gan adran dderbyniadau'r AALl.Admissions Policy

Aim:

We seek to be an inclusive school, welcoming children from all backgrounds and abilities.

All applications will be treated on merit, and in a sensitive manner.

The only restriction placed on entry is that of number. If the number of children applying for entry exceeds the places available, we adopt the procedure set out below to determine whether a child is to be accepted or not. It is our wish for parents to find a place for their child at the school of their choice. However, this is not always possible, due to excess demand on the places available.

A child's level of ability is irrelevant to this school's admissions policy, as are any Additional learning needs the child may have.

How parents can apply for their child to be admitted to our school

Our school is a community school, and the admission arrangements are issued by the LEA. The Admissions Authority for our school is therefore the LEA, which publishes its entry regulations every year. Parents can receive a copy of these regulations directly from the LEA.

The LEA's annual admissions prospectus informs parents how to apply for a place at the school of their choice. Parents have a right to express their preference, but this does not, in itself, guarantee a place at that particular school. Applications should be made online the LEA website and should be completed by the date stipulated on that form. The LEA will notify parents of the decision as soon as all the applications have been considered against their criteria.

Full details of Carmarthenshire County Council's admissions policy and how to apply for a place for your child can be found through the link below:

https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/

There are three admission dates per year at the start of each term.

Admission appeals

If the LEA do not offer a child a place at this school, this will be because to do so would prejudice the education of other children by allowing the number of children in the school to increase too much.

If parents wish to appeal against a decision to refuse entry, they can do so by applying to the LEA. An independent panel considers all such appeals, and its decision is binding for all parties concerned. If the appeals panel decides that we should admit a child to whom a place has been refused, then we will accept this decision and continue to do all we can to provide the best education for all the children at our school. (Further details of appeal arrangements are set out in the LEA admissions policy.

The standard number

The ‘standard number’ is the number of children the LEA considers the school can accommodate. The standard number for our school is **30**.

Monitoring and review

This policy will be monitored by the governing body and reviewed in the light of any changed circumstances, either in our school or in the local area. The policy will always take due note of guidance provided by the LEA admissions department.